# Cymru Iachach: strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, adroddiad blynyddol 2023 i 2024

Adroddiad blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024: Cyflawni yn ystod cyfnodau heriol

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Medi 2024

Diweddariad olaf: 6 Medi 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymru-iachach-strategaeth-gweithlu-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024 am y fersiwn diweddaraf.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn crynhoi'r prif feysydd cynnydd a gyflawnwyd yn y drydedd flwyddyn lawn o’r strategaeth.

Dyma rhai o uchafbwyntiau ein hadroddiad blynyddol.

## Adroddiad blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024: Cyflawni yn ystod cyfnodau heriol

Ym mis Hydref 2020, ynghyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, fe wnaethon ni lansio Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i gefnogi’r gwaith o weithredu strategaeth Cymru Iachach.

Mae’r sector gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu nifer o heriau sydd wedi’u gosod yng nghyd-destun heriau ariannol sylweddol a thanariannu'n hanesyddol. Byddwn yn parhau i deimlo effeithiau pandemig Covid-19 am flynyddoedd i ddod ac mae’r argyfwng costau byw yn cael effaith negyddol ar gymunedau.

Mae heriau mawr o ran y gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol hefyd. Mae’n anodd denu a recriwtio staff a chadw’r gweithlu presennol. Mae hyn yng nghanol y galw cynyddol am wasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, oherwydd poblogaeth sy’n heneiddio ac awydd pobl i fyw’n hirach gartref.

Mewn ymateb i’r anawsterau hyn, byddwn ni’n parhau i roi’r cymorth sydd ei angen ar y gweithlu a chyflogwyr, drwy weithio’n gyflym i weithredu’r ymrwymiadau a nodir yn y strategaeth gweithlu.

Er gwaethaf yr heriau parhaus hyn, rydyn ni wedi gwneud cynnydd yn ystod 2023 i 2024, ein trydedd flwyddyn lawn o gyflawni’r strategaeth. Dylid dathlu’r llwyddiannau a’r gwelliannau hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi’r prif feysydd cynnydd a gyflawnwyd yn ein rhaglenni gwaith yn ystod 2023 i 2024, ynghyd â’n gwaith mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC.)

Mae’r strategaeth gweithlu yn darparu camau gweithredu ar draws yr holl wasanaethau a lleoliadau, ond mae’r adroddiad hwn hefyd yn sôn yn benodol am y gweithgareddau a’r cynnydd yn erbyn pob un o’r cynlluniau gweithlu rydyn ni wedi’u datblygu ers lansio’r strategaeth gweithlu,sef:

- Cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol
- Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol
- Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol

Llesiant, yr iaith Gymraeg a chynhwysiant yw llinynnau aur y strategaeth gweithlu, sy’n rhedeg drwy ein holl themâu a chamau gweithredu. Maen nhw’n parhau i chwarae rhan hanfodol yn y newid diwylliant sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau modern hanfodol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl Cymru.

Rydyn ni wedi gwneud y cynnydd hwn ar yr un pryd â gwneud gwaith ymgysylltu sylweddol. Gwnaethom ni ymgynghori ar gamau gweithredu a chynnwys cam nesaf y gweithredu, a arweiniodd at Gynllun Cyflawni’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027. Mae hyn yn unol â’n cyfnod adolygu ffurfiol cyntaf, fel yr addawyd yn y strategaeth wreiddiol.

Yn y dyfodol, byddwn yn gallu adrodd yn erbyn y Cynllun Cyflawni’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027 lle rydyn ni wedi nodi amrywiaeth o fesurau ansoddol a meintiol. Felly, bydd yr adroddiad blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys adroddiad cynnydd o ran naratif a gwybodaeth feintiol.

# Ein cynnydd yn 2023 i 2024

## 1. Gweithlu sy’n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach

Dangos

**Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- barhau i rannu arferion da ac adnoddau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i yrru gwelliant, a rhyngom rydyn ni'n rhannu lleoedd ar rwydweithiau iechyd a llesiant
- barhau i hyrwyddo’r gwasanaeth cymorth iechyd meddwl, Canopi.

**Fe wnaethom ni:**

- lansio tudalennau gwe llesiant newydd, gan gynnwys fersiwn ar-lein o’r fframwaith iechyd a llesiant
- siarad mewn cynadleddau a digwyddiadau’r sector i godi ymwybyddiaeth o’r fframwaith iechyd a llesiant a’r cymorth sydd ar gael i’r sector
- gyhoeddi a pharhau i fonitro ein cyflawniad yn erbyn ein cynlluniau cydraddoldeb strategol
- gynnal sesiwn panel arbenigol am Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (WRES) a’r hyn y mae’n ei olygu i ofal cymdeithasol yng Nghymru
- barhau i gyfrannu at weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl LHDTC+ yng Nghymru
- ddarparu hyfforddiant a sesiynau cymorth gan gymheiriaid ar-lein i reolwyr. Fe wnaethom ni adolygu ein dull gweithredu ac, yn 2024 i 2025, byddwn yn datblygu canllaw i gymorth gan gymheiriaid, i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cynnig cyfleoedd yn eu gweithleoedd eu hunain
- barhau i gynnal rhwydwaith llesiant gofal cymdeithasol i bartneriaid a rhanddeiliaid a datblygu’r gymuned ymarfer llesiant

- ddarparu sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth am lesiant ar-lein i’r sector, ar y pynciau llesiant sydd bwysicaf iddyn nhw
- gynnal cynhadledd llesiant gofal cymdeithasol er mwyn i bobl allu cysylltu â’i gilydd, rhannu syniadau, dysgu am yr adnoddau llesiant a’r cymorth sydd ar gael. Yn dilyn adborth o'r digwyddiad, gwnaethom ni gynllunio a chynnal gweithdai ar-lein ar lesiant tîm.
- barhau i gefnogi’r sector i weithio’n ddwyieithog fel rhan o’n hymrwymiad i ‘ Mwy na geiriau’. Fe wnaethom ni greu adnoddau wedi’u targedu i gefnogi'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys modiwl e-ddysgu newydd, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- barhau i gefnogi’r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar i’w helpu i ddatblygu a chodi ei phroffil ymhellach fel fforwm cenedlaethol, aml-sector ar gyfer sefydliadau sy’n datblygu ac yn hyrwyddo gweithgareddau a chamau gweithredu lleol i helpu i wella llesiant yng nghymunedau ledled Cymru
- barhau i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo cerdyn gweithiwr gofal digidol. Mae hyn yn cydnabod gweithwyr gofal cymdeithasol fel gweithwyr allweddol ac yn eu galluogi i gael mynediad at amrywiaeth o fuddion gyda manwerthwyr, ynghyd â chymorth llesiant
- gyhoeddi canlyniadau peilot arolwg y gweithlu gofal cymdeithasol 2023, a oedd yn canolbwyntio ar lesiant, a lansio arolwg 2024
- roi gweithgareddau blwyddyn gyntaf y gwasanaeth cefnogi cyflogwyr ar waith a chynnal tair sioe deithiol i gefnogi cyflogwyr ledled Cymru
- gynnal y seremoni wobrwyo Gwobrau 2023 i gydnabod cyfraniad eithriadol timau ac unigolion sy’n darparu gofal cymdeithasol

- barhau i gefnogi amrywiaeth o gymunedau, gan gynnwys:
  - addysgwyr ymarfer
  - gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso
  - gofal plant preswyl

  - gofal a chymorth seiliedig ar leoedd
  - unigolion cyfrifol
  - tystiolaeth
  - gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
  - aseswyr budd pennaf.
- barhau i gynnig gwasanaeth llesiant i'r rheini sy'n mynd drwy'r broses addasrwydd i ymarfer a diweddaru'r wybodaeth am addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau ar ein gwefan
- ymgysylltu a gweithio gyda'r sector i adolygu'r codau ymarfer proffesiynol a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig, er mwyn gwneud yn siŵr bod y rhain yn cyd-fynd â'r fframwaith iechyd a llesiant
- gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru ynghylch gwobrwyo a chydnabyddiaeth deg ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol
- asesu gwerth bathodynnau cofrestru i'r gweithlu drwy gynllun peilot.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd gennym o adolygiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o delerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o weithredu dull gweithredu safonol ledled Cymru
- rannu â phartneriaid yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'r ymchwil i'r hyn sy'n cymell gweithwyr i ddod yn weithwyr asiantaeth, gan egluro'r camau nesaf i ni a'n partneriaid
- barhau i hyrwyddo argaeledd gwasanaeth cymorth proffesiynol gwaith cymdeithasol Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)
- gynnal dwy gynhadledd gwaith cymdeithasol ar y cyd â BASW, un yn y gogledd ac un arall yn y de, i rannu arferion da a dathlu'r proffesiwn
- barhau i gefnogi cymuned yr addysgwr ymarfer a sefydlu cymuned ymarfer ar gyfer pobl sy'n cefnogi gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- barhau i gefnogi grwpiau cymorth gan gymheiriaid sy’n gwella cydnerthedd a llesiant yn eu gweithlu
- barhau i gyfrannu at Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, sy’n ceisio gwella amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol
- barhau i gefnogi llesiant rheolwyr drwy gynnig cyfres o ddigwyddiadau dysgu a datblygu ar-lein ar y themâu canlynol:
  - empathi tosturiol ar waith
  - creu timau cydlynol a chynhwysol
  - ffiniau tosturiol yn y gwaith
  - datrys gwrthdaro mewn modd tosturiol
  - hyder, pendantrwydd a chymhelliant dilys yn y gwaith
- ddatblygu adnodd e-ddysgu ar gyfer llesiant y gweithlu a llesiant personol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- gynnal sawl digwyddiad yn ymwneud â safonau goruchwylio i rannu canfyddiadau ac i ddechrau datblygu model dull gweithredu cenedlaethol yr ymgynghorir yn eang arno
- gwmpasu gwaith ar gyfer cymorth proffesiynol pwrpasol i’r gweithlu iechyd meddwl. Rydyn ni’n defnyddio’r wybodaeth hon i benderfynu ar ein camau nesaf i fwrw ymlaen â’r gwaith hwn.

## 2. Denu a recriwtio

Dangos

**Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- barhau i gefnogi rhwydwaith gyrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i rannu arferion da ac adnoddau i wella recriwtio a chadw staff ar draws y sectorau
- barhau i gefnogi datblygiadau pellach yn adnodd Tregyrfa.

**Fe wnaethom ni:**

- barhau i ddarparu ymgyrchoedd denu wedi'u targedu ar gyfer prinder sylweddol mewn grwpiau proffesiynol a galwedigaethol, grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a meysydd anodd eu recriwtio drwy ein rhaglen Gofalwn Cymru. Roedd ffocws yr ymgyrch yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol yn unol ag Wythnos Gwaith Cymdeithasol, prentisiaethau, gofal cartref a'r iaith Gymraeg.
- barhau i hyrwyddo a chefnogi'r rheini sy'n dilyn prentisiaethau fel dewis gyrfa ymarferol i bobl sy'n ymuno ac yn aros yn y sector. Fe wnaethon ni hyn drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu a thrwy gefnogi Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru
- barhau i gefnogi a chydlynu grŵp rhanddeiliaid recriwtio a denu cynrychioladol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a sefydliadau dyfarnu fel City & Guilds a CBAC, i gryfhau'r cysylltiadau rhwng pobl sy'n chwilio am waith a gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol
- barhau i ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a theledu i hyrwyddo Gofalwn Cymru gan ddefnyddio dull 'ymlaen drwy'r amser' o ddenu a recriwtio
- barhau i gefnogi'r swyddi cysylltwyr gyrfa gofal yn ariannol yn y saith rhanbarth
- adolygu ac adrodd ar effaith ac effeithiolrwydd rôl y cysylltwr gyrfa gofal gyda chynlluniau ar waith i ymateb i'r argymhellion
- ail-lansio gwefan Gofalwn Cymru a phorth swyddi, ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol
- barhau i redeg y rhaglenni hyfforddiant ymwybyddiaeth Cyflwyniad i ofal cymdeithasol

- ymgynghori a chreu newidiadau i’r gofynion mynediad wrth gofrestru ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol,
- gefnogi’r gwaith o weithredu dull recriwtio dwyieithog a modern sy’n seiliedig ar werthoedd ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol
- gwblhau gwaith ymchwil ar ddeall recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol a rôl Gofalwn Cymru.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- gynnal ymgyrchoedd wedi’u targedu i gefnogi’r gwaith o hyrwyddo’r proffesiwn gwaith cymdeithasol fel dewis gyrfa yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2023
- adolygu’r gwaith o hyrwyddo’r bwrsari Gofal Cymdeithasol Cymru gwell ar wefannau sefydliadau addysg uwch.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- barhau i gynnal ymgyrchoedd yn benodol ar gyfer gofal cartref a phrentisiaethau ar draws teledu, y cyfryngau cymdeithasol a radio
- barhau i redeg y rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth, Cyflwyniad i ofal cymdeithasol. Mae hyn wedi canolbwyntio ar newid canfyddiad y cyhoedd o ofal a datblygu hyfforddiant o ansawdd uchel i’r cyhoedd yng Nghymru i ystyried gofal fel gyrfa broffesiynol sy’n cynnig llwybrau at ddyrchafiad
- ddatblygu adnoddau’n benodol ar gyfer ysgolion a cholegau ac ar gyfer gwefan Gofalwn Cymru i hyrwyddo’r rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth Cyflwyniad i ofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddefnyddio Tregyrfa i hyrwyddo gyrfaoedd iechyd meddwl ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnig adnoddau, gwybodaeth a digwyddiadau byw
- ddatblygu rhaglen ymgyrch ddenu wedi'i thargedu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl, wedi'i chefnogi gan Hyfforddi Gweithio Byw a Gofalwn Cymru.

### 3. Modelau gweithlu di-dor

Dangos

### Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:

- gyfrannu at a chefnogi'r thema gweithlu a datblygiad sefydliadol y rhaglen gofal sylfaenol strategol
- gynnig hyfforddiant nyrsio i staff cartrefi gofal
- ddatblygu llwybrau i hyfforddiant ail-alluogi
- gyfrannu at ddatblygiad adnodd dysgu ar wneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer Tŷ Dysgu.

### Fe wnaethom ni:

- gyfrannu at gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anableddau Dysgu, fel rhan o'n rôl ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog
- barhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio pecyn cymorth cymhwysedd i gefnogi rôl asesydd dibynadwy
- barhau i gefnogi a chymryd rhan ym myrddau gweithlu rhanbarthol a byrddau partneriaeth rhanbarthol
- barhau i gefnogi cynlluniau rhanddeiliad a pholisi'r llywodraeth, gan gynnwys dileu elw, masnachfreinio gofal yn y cartref, a chynyddu capasiti cymunedol
- barhau i gefnogi gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ar gyfer Ail-alluogi er mwyn rhannu arferion ac archwilio datrysiadau i'r gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu statws gwasanaethau ailalluogi a gofal canolraddol fel rhan o astudiaeth genedlaethol

dan arweiniad y Labordy Data Rhwydweithiol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- barhau i fynd i gyfarfodydd cenedlaethol gyda rheolwyr y gweithlu a’r Sefydliadau Addysg Uwch fel ein bod yn ymwybodol o unrhyw heriau sy’n wynebu’r proffesiwn gwaith cymdeithasol
- barhau i gydlynu a chadeirio grŵp Rhanddeiliaid y Proffesiwn Gwaith Cymdeithasol bob chwarter
- barhau i weithio’n agos gyda’n cydweithwyr ym maes sicrhau ansawdd addysg i drafod opsiynau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- barhau i weithio gyda phartneriaid i ehangu’r hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal, drwy rolau hwyluswyr addysg mewn cartrefi gofal.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- barhau i gefnogi Rhwydwaith Arweinwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy Cymru Gyfan i rannu arferion da ac adnoddau i gefnogi’r gwaith o ddatblygu a gwella rolau
- ddatblygu cynnwys ar gyfer e-ddysgu lefel 1 sylfaenol Hyfforddiant Llythrennedd Iechyd Meddwl
- ddatblygu canllawiau ar gyfer colegau adfer a llunio model i fwrw ymlaen â’r gwaith gyda phartneriaid.

## 4. Adeiladu gweithlu sy’n barod yn ddigidol

Dangos

## Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:

- gefnogi’r gwaith o adeiladu a gwaith parhaus y wefan datblygiad proffesiynol Gwella, sy’n nodi llwybrau dysgu a chyfleoedd i weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd
- weithio gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd a chatalog o ddatrysiadau dysgu rhithwir, gan gynnwys e-ddysgu, ystafell ddosbarth rithwir ac efelychu.

## Fe wnaethom ni:

- ddatblygu a chyfrannu at ddatblygu amrywiaeth o adnoddau dysgu digidol a modiwlau dysgu, gan gynnwys y meysydd canlynol:
  - diogelu
  - atal a rheoli heintiau
  - y Gymraeg
  - ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau ac sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau
  - llesiant personol a llesiant yn y gweithle
  - cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty
  - dulliau cyfathrebu a dulliau gweithredu ym maes gofal cymdeithasol
- pynciau amrywiol sy’n cyd-fynd â'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan
  - codau ymarfer proffesiynol
  - dulliau seiliedig ar hawliau a gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
  - egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- barhau i flaenoriaethu’r gwaith o wella llythrennedd digidol a seilwaith digidol yn y gweithlu drwy grant Rhaglen Datblygu’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru
- gyhoeddi gwaith ymchwil i ddeall statws cyfredol arloesedd digidol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys nodi pa gamau gweithredu a chymorth pellach sydd eu hangen

- gwblhau cam darganfod ar gyfer asesiad o lythrennedd ac aeddfedrwydd digidol y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru
- ymuno â'r Comisiwn AI ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu persbectif gofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- barhau i gysylltu â'n cydweithwyr technoleg ynghylch datblygiadau mewn ymarfer a all helpu ymarfer gwaith cymdeithasol a hyrwyddo'r rhain i'r sector

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- gynnal pedwar gweithdy ar gyfer cyflogwyr a rheolwyr i gefnogi cynhwysiant digidol gweithwyr, er mwyn cynyddu mynediad, hyder a chymhwysedd gweithwyr wrth weithio tuag at ymsefydlu a chymwysterau
- gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnodd e-ddysgu rheoli meddyginiaeth ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- gomisiynu cynllun peilot ar gyfer ap sy'n helpu i symleiddio'r broses asesiadau deddf iechyd meddwl.

## 5. Addysg a dysgu rhagorol

Dangos

### Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:

- ddatblygu dull ymsefydlu ar y cyd sy'n cyd-fynd â Fframwaith sefydlu Cymru gyfan.

### Fe wnaethom ni:

- weinyddu, dyrannu ac adrodd ar y defnydd o grant Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)
- barhau i roi cefnogaeth i gyflogwyr a darparwyr dysgu ar gyfer rhoi cymwysterau galwedigaethol iechyd a gofal cymdeithasol ar waith yn barhaus
- ddechrau datblygu set o adnoddau cenedlaethol i'w defnyddio gan ddysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr i gefnogi'r gwaith o ennill cymwysterau sgiliau hanfodol
- weithio gyda phartneriaid i wella cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd ag addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg
- weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i greu'r cwrs dysgu Cymraeg am ddim, Camau, yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol
- mewn partneriaeth â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer hyfforddi, dysgu a datblygu ym maes diogelu, i helpu pobl sydd â chyfrifoldebau diogelu yng Nghymru
- barhau i gefnogi dealltwriaeth a defnyddio ymarfer yn seiliedig ar gryfderau ar draws meysydd gwasanaethau statudol ac anstatudol gofal cymdeithasol. Gwneir hyn drwy adnoddau a hyfforddiant gan gynnwys gweithdai ar gyfer Unigolion Cyfrifol sy'n cael eu darparu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Fe wnaethon ni hefyd ddatblygu canllaw i'r sector ar safonau ac egwyddorion wrth gomisiynu a darparu ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder
- barhau i gynnig y rhaglen sgiliau cyfathrebu cydweithredol i awdurdodau lleol
- barhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu dysgu i gefnogi'r gweithlu i weithio gyda gofalwyr di-dâl
- barhau i gefnogi gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ar gyfer gofalwyr di-dâl
- ddechrau datblygu fframwaith sgiliau ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes ymchwil, arloesi a gwella gofal cymdeithasol
- greu tîm o hyfforddwyr i feithrin perthnasoedd, hyder a sgiliau mewn arloesi drwy hyfforddi timau lleol

- barhau i gefnogi gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ar gyfer Ail-alluogi er mwyn rhannu arferion ac archwilio datrysiadau i’r gweithlu.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- barhau i ddarparu cyllid trwy ein grant SCWWDP i gefnogi llefydd noddedig ar gyfer y radd gwaith cymdeithasol
- barhau i gefnogi myfyrwyr sy’n weithwyr cymdeithasol drwy hyfforddiant cymhwyso i gyflogaeth
- barhau i ddylanwadu ar werth bwrsariaethau i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol
- ddechrau creu taith ddysgu ar gyfer DPP i weithwyr cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- barhau i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau fel eu bod yn ddewisiadau gyrfa hyfyw i ymuno â’r sector ac aros yn y sector
- barhau i ddarparu cefnogaeth i gyflogwyr a darparwyr dysgu ar gyfer rhoi cymwysterau galwedigaethol iechyd a gofal cymdeithasol ar waith yn barhaus
- barhau i gefnogi'r defnydd o Fframwaith sefydlu Cymru gyfan
- barhau i gefnogi’r defnydd o’r fframwaith sefydlu ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol
- gefnogi’r ddarpariaeth barhaus ar gyfer y dyfarniad Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- ennill cydnabyddiaeth am y dyfarniad Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol fel cymhwyster sy’n cyfateb i flwyddyn gyntaf y radd mewn Gwaith Cymdeithasol a thrwy hynny ehangu mynediad i ddysgwyr galwedigaethol i fynd i Addysg Uwch
- gefnogi’r consortiwm o sefydliadau dyfarnu i ddatblygu a newid cymwysterau galwedigaethol Lefel 4 a 5 iechyd a gofal cymdeithasol gyda newidiadau sylfaenol wedi’u negodi ar gyfer y fethodoleg asesu fel ymateb i ymgysylltu ac

adborth gan y sector

- gynnal dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb i ymgysylltu â chyflogwyr a datblygu canllawiau ar gyfer gweithwyr nos mewn gwasanaethau preswyl i blant
- gydweithio â chydweithwyr yn y sector o’r Grŵp Ymgynghori ar Gymwysterau a Safonau (QSAG) i edrych ar broses bosibl ar gyfer trosglwyddo cymwysterau nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd yn y fframwaith cymwysterau, gan gynnwys gwledydd eraill yn y DU a chymwysterau rhyngwladol
- ddechrau gweithio ar brosiect i roi deunyddiau dysgu ac addysgu a ddefnyddir i gefnogi Sgiliau Hanfodol Cymru mewn cyd-destun er mwyn iddyn nhw adlewyrchu’r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant a’r blynyddoedd cynnar yn well
- ailddechrau gweithio ar ddatblygu’r canllawiau lleoliadau prentisiaid gyda’r grŵp llywio sy’n cynnwys cydweithwyr yn y sector
- barhau i ymgysylltu â'r sector a chynnal nifer o rwydweithiau a gweithdai datblygiad proffesiynol ar gyfer darparwyr dysgu ar amrywiaeth o bynciau sy’n ymwneud â chynnwys ac asesu cymwysterau’r sector
- gynnal pedwar gweithdy ar gyfer cyflogwyr a rheolwyr i gefnogi cynhwysiant digidol gweithwyr, er mwyn cynyddu mynediad, hyder a chymhwysedd gweithwyr wrth weithio tuag at ymsefydlu a chymwysterau

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- barhau i ddarparu hyfforddiant cenedlaethol mewn therapi byr sy’n canolbwyntio ar atebion ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- sefydlu grŵp llywio i ddatblygu fframwaith cymhwysedd ar gyfer gweithwyr cymorth iechyd meddwl.

## 6. Arweinyddiaeth ac olyniaeth

Dangos

## Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:

- barhau i ddatblygu a chreu mwy o adnoddau gofal cymdeithasol a chyfleoedd dysgu o fewn porth Gwella
- weithio i hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol a'r egwyddorion ategol ar y cyd.

## Fe wnaethom ni:

- barhau i fuddsoddi mewn datblygu arweinwyr tosturiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- ddarparu rhaglen arweinyddiaeth uwch gydweithredol a thosturiol ar gyfer awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol
- ddatblygu a chyflwyno rhaglen datblygiad proffesiynol bwrpasol ar gyfer cyfarwyddwyr newydd, sy'n cynnwys setiau dysgu gweithredol, siaradwyr gwadd a sesiynau hyfforddi unigol
- ddarparu a gwerthuso'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Darpar Reolwyr Canol
- barhau i ddarparu rôl arwain i hyrwyddo gweithio'n ddwyieithog
- barhau i gefnogi'r gwaith o weithredu cynllun gweithredu Mwy na geiriau
- ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi amrywiaeth mewn arweinyddiaeth gofal cymdeithasol a nodi opsiynau ar gyfer cynllun peilot i gefnogi cyfleoedd datblygiad proffesiynol grwpiau Asiaidd, Du ac ethnig eraill
- weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i edrych ar sut i symud ymlaen gyda chymorth i wreiddio diwylliannau cadarnhaol
- ddatblygu tudalennau gwe newydd ar arweinyddiaeth dosturiol i gefnogi'r sector.

### Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:

- barhau i hyrwyddo, cefnogi ac adolygu cymwysterau'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm (TMDP) a'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol (MMDP) a chreu

fideos marchnata ar gyfer y ddwy raglen

- gyflwyno sesiwn ar gyfer tiwtoriaid TMDP i’w helpu i nodi adnoddau i gefnogi addysgu ynghylch arweinyddiaeth dosturiol fel rhan o’r rhaglen
- barhau i ddarparu system cefnogi mentora ar gyfer uwch arweinwyr sydd newydd eu penodi
- gyflwyno sesiwn datblygu dysgu i addysgwyr ymarfer ar sgyrsiau anodd, sy’n gysylltiedig ag egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol o reoli anawsterau’n gadarnhaol, yn agored, yn ddewr ac yn foesol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- barhau i gefnogi rhwydweithiau cymheiriaid i reolwyr cofrestredig ym maes gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus i wella llesiant a helpu i ddiogelu cydnerthedd
- barhau i gefnogi’r gwaith o hyrwyddo a gweithredu’r cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol Lefel 4 a Lefel 5 newydd, gan gynnwys y llwybrau prentisiaeth cysylltiedig.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddatblygu a chyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm Iechyd Meddwl achrededig lefel 7 wedi’i hariannu’n llawn. Mae chwe deg o ymgeiswyr wedi dechrau eu hastudiaethau.

## 7. Cyflenwad a siâp y gweithlu

Dangos

## Ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:

- ddatblygu canllawiau cynllunio gweithlu i nodi a datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

- adnewyddu’r pecyn adnoddau i gefnogi’r rhaglen cynyddu gallu cymunedol.

### Fe wnaethom ni:

- barhau i gefnogi datblygiad sgiliau a hyder gweithwyr cymdeithasol wrth symud tuag at fodelau gweithredol o ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
- barhau i wella a dwyn ynghyd ddulliau o gasglu a chyhoeddi data am y gweithlu ar draws y sector gofal cymdeithasol a sicrhau bod data cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ym Mhorth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru
- lansio asesiad aeddfedrwydd data gydag awdurdodau lleol er mwyn deall yn well y bylchau mewn diwylliant a dysgu o ran defnyddio data
- barhau i gefnogi gwaith Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr
- barhau i gyfrannu tystiolaeth i’r Uwchgynhadledd Gofalwyr
- gwblhau adolygiad cwmpasu o’r dulliau o gynllunio’r gweithlu ar draws y sector a dechrau ymateb i’r argymhellion i ddatblygu’r swyddogaeth hon ymhellach
- barhau i gefnogi gwaith y Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar i helpu i ddatblygu a hyrwyddo mentrau lleol sy’n gwella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru
- edrych ar ddatblygu model i gefnogi lleoliadau gwirfoddoli mewn lleoliadau gofal cymdeithasol
- adolygu’r pecyn cymorth ‘Sgiliau Cymraeg yn eich gweithlu, eu defnyddio’n effeithiol’ fel ei fod yn cyd-fynd â deddfwriaeth, adroddiadau, fframweithiau a chymhellion perthnasol. Fe wnaethon ni hefyd greu adnodd digidol i gefnogi ei ddefnydd
- gychwyn prosiect peilot i gefnogi cyflogwyr i ddatblygu cynlluniau gweithlu Cymraeg, mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg
- ddechrau ystyried ac ymateb i oblygiadau’r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i’r gweithlu

- gomisiynu adolygiad annibynnol o’n swyddogaethau cofrestru a dechrau datblygu cynllun gweithredu i ymateb i’r argymhellion.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- barhau i gefnogi’r gweithlu gwaith cymdeithasol gyda chofrestru
- barhau i drafod pwysigrwydd gweithwyr tramor a’u hintegreiddio i’r gweithlu mewn ffordd ddiogel a chefnogol
- barhau i weithio’n agos gyda’n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ganfod cyfleoedd a fydd yn gwella’r sefyllfa bresennol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- barhau i gefnogi datblygiad Fframwaith Cyflog a Chynnydd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol
- barhau i gefnogi’r gweithlu cartrefi gofal gyda chofrestru
- barhau i gefnogi rhaglen waith Trawsnewid Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y fframwaith ymarfer cenedlaethol
- gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant therapi galwedigaethol gydag awdurdodau lleol, gan ddwyn ynghyd ddarlun cenedlaethol o’r anghenion addysg a hyfforddiant wrth symud ymlaen, gan gynnwys cyfleoedd a heriau lleoliadau
- gefnogi’r gwaith o ddatblygu rhaglen Lefel 5 ar y cyd â’r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ganolbwyntio ar gomisiynu ar gyfer canlyniadau llesiant.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, ar y cyd ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddarparu cyllid i garfan o 20 o bobl i gymryd rhan mewn hyfforddiant AMHP ar draws gogledd a de Cymru.

## Gwaith sydd ar y gweill

Byddwn yn datblygu'r meysydd gwaith canlynol ymhellach yn 2024 i 2025:

- gwneud gwaith ymchwil i ddeall yr heriau y mae asiantaethau yn eu hwynebu, gan edrych ar sut y gallwn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd a chreu adnoddau ar gyfer asiantaethau a chyflogwyr sy'n defnyddio staff asiantaeth, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoleiddio
- datblygu a chyflwyno fframwaith ôl-gymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol
- adolygu'r canllawiau 'Cydgrynhoi ymarfer – y tair blynedd gyntaf' ar gyfer gwaith cymdeithasol
- gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddarparu hyfforddiant cynllunio'r gweithlu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol
- nodi ac ystyried gyda phartneriaid cenedlaethol yr opsiynau sydd wedi'u costio ar gyfer model cenedlaethol o gymorth cynllunio'r gweithlu
- adolygu codau ymarfer, canllawiau ymarfer ac egwyddorion addasrwydd i ymarfer
- adolygu ein dull gweithredu a'n proses ar gyfer cofnodi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) parhaus, i gefnogi pobl gofrestredig i gofnodi eu DPP yn hawdd, ac mewn ffordd hygyrch
- datblygu adnoddau cenedlaethol i'w defnyddio gyda Chymwysterau Sgiliau Hanfodol rhan 2
- edrych ar sut i wella llwybrau gyrfa a chynnig eglurder ynghylch hyfforddiant gorfodol, gofynion o ran cymwysterau a DPP
- cynnal asesiad o lythrennedd ac aeddfedrwydd digidol y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Casgliad

Fel sector, rydyn ni’n parhau i anelu at gyflawni uchelgais y strategaeth 10 mlynedd a byddwn yn parhau i gefnogi cydweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, rhwng sefydliadau lleol a chyrff cenedlaethol sy’n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Mae’r gwaith a gyflawnwyd yng ngham un ers lansio’r strategaeth wedi ein galluogi i ennill momentwm y gallwn adeiladu arno yn y dyfodol, yn unol â’n nodau tymor hirach.

Mae Cynllun Cyflawni’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027, yn amlinellu’r set glir o gamau gweithredu ar gyfer cam dau y gwaith o gyflawni’r strategaeth, er mwyn i ni allu parhau i gefnogi a datblygu’r gweithlu.

**Gofal Cymdeithasol Cymru, Mehefin 2024**

## Fersiwn hawdd ei ddeall o'r adroddiad blynyddol

## Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'r adroddiad blynyddol

Adroddiad blynyddol strategaeth gweithlu 2023 - 2024

DOCX 191KB